## Gwneud ffilm Satwrnalia, gan Somerton Primary School

Daeth disgyblion yma o Somerton Primary School i Amgueddfa Leng Rufeinig Cymru fel rhan o Ddiwrnod Meddiannu Kids in Museums, 2016. Cymerwyd yr awenau ganddynt er mwyn dweud hanes y Satwrnalia, Crëwyd y fidio a welir yma ganddynt wedi iddynt ei sgriptio a'i ffilmio. Aethant y tu ôl i'r llenni yn yr Amgueddfa hefyd i ddarganfod gwrthrychau Rhufeinig, ac yna dewis a thynnu lluniau o'r eitemau er mwyn ychwanegu at stori'r Satwrnalia.

**Creu Fideo:** Defnyddiwch yr adnoddau yma hon i'ch helpu i gynllunio a chreu fideo ar bwnc o'ch dewis ar gyfer ei uwchlwytho i Cagliad y Werin Cymru. Gallwch ddefnyddio'r cynnwys ar y wefan yma ar gyfer eich ymchwil. Crëwch *gasgliad* i gynnwys y fideo, ac unrhyw wrthrychau i gyd-fynd a'r fideo, a *stori* i ddweud mwy am y pwnc. Dysgwch sut i uwchlwytho *eitemau* a chreu *casgliadau* gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr. Gweler y Blwch Offer i Athrawon am help ar sut i wneud y mwyaf o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wrth ffurfio prosiect.

### Dyma sut gwnaethpwyd y fideo ar gyfer y Satwrnalia

Yn ystod y dydd, daeth y dysgwyr i ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Aethant i ymweld â Rhufeiniwr yn paratoi ar gyfer yr ŵyl ganol gaeaf a dysgu am y traddodiadau, a'u cymharu gyda thraddodiadau ganol gaeaf y dyddiau hyn. Fel rhan o'r diwrnod, aethant y tu ôl i'r llenni gyda churadur er mwyn dewis gwrthrychau Rhufeinig go iawn perthnasol i'r Satwrnalia, fel anrhegion y gall y Rhufeiniaid wedi rhoi i'w gilydd, er mwyn eu hychwanegu at wefan Casgliad y Werin ochr yn ochr â'u ffilm.

Yna. Aethant ati i weithio fel tîm i greu'r fideo. Roeddent yn gweithio gyda hwyluswyr ac athrawon i ddewis golygfeydd yn ôl yr hyn yr hoffent ei ddweud am y Satwrnalia. Ysgrifennodd y grŵp eu sgript eu hunain a dewis cast ar gyfer pob golygfa.

Ffilmiwyd y fideo dau funud ar iPad, a golygwyd y fideo ar iMovie. Cafodd y fideo ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol, ei ddangos mewn digwyddiad yn dathlu'r Satwrnalia a'i gynnwys mewn casgliad ochr yn ochr gyda lluniau o wrthrychau Rhufeinig a ddewiswyd gan yr Ysgol. Roedd gennym ni ganiatâd ysgrifenedig gan bob dysgwr wedi eu llenwi ar y dydd, ac roedd y lluniau o'r gwrthrychau i gyd o fewn hawlfraint yr Ysgol fel crewyr ac oherwydd eu bod o wrthrychau.

Gweler isod am llinellau a golygfeydd awgrymedig, a thempled gwag fel y defnyddiwyd er mwyn creu bwrdd stori ar gyfer y fideo.

## Dyma ddrafft o'r bwrdd stori y defnyddiwyd i greu fideo'r Satwrnalia

### Cynllun Stori

Golygfeydd posib: ystafell wely'r barics, storfa arfau'r barics, yn yr ardd y tu allan i hel celyn.

### Prif Stori

### Cyflwyniadau:

- Salve, fy enw i yw ________
- Rydw i'n byw yng Nghaerllion ym marics y milwyr, ac rydw i'n rhannu ystafell gydag wyth milwr arall.
- Rydym yn edrych ymlaen at ddathlu'r Satwrnalia a gwledda! Io Saturnalia!
- Mae gennym ni nifer o dduwiau, ond ar gyfer Sadwrn mae'r Satwrnalia.
- Ym mis Rhagfyr, rydym yn dathlu'r duw Sadwrn ac yn diolch iddo am y cynhaeaf y flwyddyn hon ac yn gweddïo iddo ddod a digonedd o fwyd i ni y flwyddyn nesaf.
- Merch Rufeinig yn byw yng Nghaerllion ydw i. Mae fy ngŵr yn ddyn pwysig yn y fyddin – felly mae'n rhaid i mi gael y tŷ yn barod ar gyfer y Satwrnalia fel ein bod yn gallu mwynhau'r ŵyl a chael gwledd fawr.
- Caethweision ydym / caethwas ydw i ac rydw/ym yn gweithio'n galed ar gyfer y Satwrnalia. Gallai ddim disgwyl oherwydd os byddaf yn lwcus, bydd fy meistr yn gweini bwyd i mi ar y Satwrnalia. Mi fydd hynny yn wahanol!
- Os nad ydych yn Rhufeining – efallai eich bod yn meddwl pam ein bod yn gwisgo'r hetiau diddorol yma.
- Hetiau gweision rhydd yw'r rhain. Fel arfer, dim ond caethweision wedi eu rhyddhau byddai'n eu gwisgo. Ond yn ystod y Satwrnalia mae pawb, pe baent yn gyfoethog, tlawd neu'n gaethweision – yn gwisgo'r hetiau yma.
- Caethwas – mae'n dangos fod pawb yn gyfartal am y dydd. Hyd yn oed caethwas fel fi. Dyna yw'r syniad beth bynnag.

### Addurniadau:

- Rydym yn addurno ein tai gyda chelyn a changhennau o goed bytholwyrdd.
- Rydym yn tanio canhwyllau er mwyn annog yr haul i ddod yn ôl gan fod y dyddiau yn mynd yn dywyllach.
- Rydym yn hongian addurniadau fel sêr a phennau Janus ar goed yn yr ardd.
- Janus yw duw dechreuadau newydd – mae un wyneb yn edrych i'r gorffennol a llall i'r dyfodol.

**Gwledd:**

- Dynes grand – yn ystod y Satwrnalia rydym yn cael gwledd fawr. Rydw i'n edrych ymlaen at gael malwod mewn saws garlleg, llygod daear wedi stwffio ac os ydym ni'n lwcus ymennydd paen!
- Mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr fod fy nghaethweision yn paratoi pob peth ar amser!
- Caethwas – gobeithio'r cai fwy na bara a dŵr y flwyddyn yma. Efallai bydd fy meistr yn gwahodd fi at y bwrdd ac yn gweini bwyd i mi.

**Gemau ac adloniant:**

- Milwr – rydw i'n edrych ymlaen at ymlacio a chwarae gemau bwrdd. Gyda fy ffrindiau.
- Milwr – gallai ddim aros i weld y gladiatoriaid yn ymladd yn yr amffitheatr.
- MIlwr – dwi'n edrych ymlaen at yfed a gamblo
- Caethwas – dwi'n edrych ymlaen at gael fy nhrin fel rhywun cyfartal. Os yw fy meistr mewn hwyliau da?

**Anrhegion:**

- Dynes – rydw i wedi addurno'r sêr yma ac am eu rhoi i fy chwaer a'i theulu er mwyn addurno ei tŷ.
- Milwr – Rydw i'n gobeithio cael sanau newydd, a channwyll. Neu os ydw i'n lwcus iawn un o'r tabledi cwyr crand yna.
- Milwr – Rydw i'n mynd i gael pecyn ymdaclu i'n ffrin_____ gan ei fod yn drewi a gyda chwyr yn ei glustiau trwy'r amser.
- Dynes – Rydw i am sbwylio fy mab y flwyddyn hon. Mae o am gael ceffyl pren ar olwynion!
- Dynes – I fy merch mae'r ddol hon.

**Diweddglo:**

- Sut bynnag yr ydych yn dathlu canol y gaeaf, gobeithiwn y cewch ŵyl wych! Gan bawb yng Nghaerllion…
- Pawb – (gan godi gwydr) Io Saturnalia!
- Caethwas – i bawb!

## Sgriptio a chreu Bwrdd Stori ar gyfer Casgliad y Werin

Defnyddiwch y templed yma i gynllunio fideo am bwnc o'ch dewis chi. Casglwch y wybodaeth angenrheidiol, ac unrhyw wrthrychau yr hoffech hwyrach dynnu llun ohonynt er mwyn eu harddangos gyda'r fideo ar y wefan. Yna llunion gynllun stori!

**Cynllun Stori.**

Mae'r cynllun stori yn cynnwys yr holl bynciau yr hoffech eu trafod yn y fideo. Gall hefyd gynnwys rhestr o olygfeydd posib, a llinellau i'w ddweud yn y golygfeydd hynny. Gall y dysgwyr benderfynu beth sydd yn digwydd ym mhob golygfa ac ysgrifennu sgript unai gan ddefnyddio'r llinellau awgrymedig, neu trwy greu script eu hunain ar gyfer pob golygfa o'r dechrau.

**Cyflwyniad:**

**Pynciau:**

**Diweddglo:**

**Templed Bwrdd Stori**

| Rhif | Golygfa | | Script | Actorion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |